# Nodyn Cyngor Ymarfer 4
# Cynllun Dirprwyo – Pwyllgor Cynllunio

| Rheoli Adeiladu | |
|---|---|
| **Swyddogaeth** | **Dirprwyaeth** |
| Penderfynu ar geisiadau Rheoliadau Adeiladu | Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol |
| Pob mater gorfodi, gan gynnwys gweithdrefnau sy'n ymwneud â Strwythurau Peryglus | Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol |
| Gosod ffioedd | Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol |

| Cynllunio | |
|---|---|
| **Swyddogaeth** | **Dirprwyaeth** |
| Sgrinio a barn gwmpasu yn ymwneud ag Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol | Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol |
| Cynnig cyngor cynllunio proffesiynol o dan y cynllun lleol neu genedlaethol ar gyfer cyngor cynllunio rhagarweiniol. Yn cynnwys ymateb i ymgynghoriadau cyn ymgeisio (PAC) ar gyfer DNS. | Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol |
| Ymgynghoriad gan Awdurdod Cynllunio Lleol cyfagos | Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol |
| Penderfynu ar bob cais cynllunio a cheisiadau cysylltiedig oni nodir yn wahanol yn y cynllun dirprwyo. Bydd hyn yn cynnwys TPO, adeiladau rhestredig, hysbysebion, tystysgrifau datblygiad cyfreithlon, CAAD, CAC, a73, cyflawni amodau, diwygiadau ansylweddol, hysbysiadau blaenorol, materion a gadwyd yn ôl a chydsyniad sylweddau peryglus. I gynnwys achosion lle mae rhwymedigaethau a106 yn berthnasol. | Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol |
| Gwrthod ystyried cais lle mae a70A o'r Ddeddf yn berthnasol | Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol |
| Ceisiadau preswyl mawr o 10 neu fwy o unedau neu arwynebedd safle o 0.5ha neu fwy. | Pwyllgor Cynllunio |
| Cymeradwyo ceisiadau yr ystyrir eu bod yn wyriad perthnasol o'r Cynllun Datblygu Lleol. | Pwyllgor Cynllunio |
| Ceisiadau am gynlluniau ynni adnewyddadwy annomestig (solar, hydro a gwynt) sy'n arwain at bryderon sŵn, effaith weledol neu bryderon perthnasol eraill. | Pwyllgor Cynllunio |
| Adroddiad Effaith Lleol yn ymwneud â Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol *(Aelodau sy'n dymuno mynegi barn ar* | Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol |

| | |
|---|---|
| *rinweddau cynllun i gyflwyno sylwadau'n uniongyrchol i'r Arolygydd erbyn y dyddiad cau a bennwyd)* | |
| Ceisiadau sydd ym marn y Rheolwr Gwasanaeth o fudd cyhoeddus ehangach. | Pwyllgor Cynllunio |
| Pan fo Aelod yn cyflwyno cais ysgrifenedig (o fewn 21 diwrnod ar ôl i'r cais ymddangos ar y rhestr wythnosol gyhoeddedig) sy'n nodi rhesymau cynllunio perthnasol dros glywed cais yn y Pwyllgor Cynllunio. | Pwyllgor Cynllunio *(Yn amodol ar y cais sy'n cael ei alw i mewn yn cael ei gymeradwyo gan y Cadeirydd)* |
| Ceisiadau a gyflwynir gan Swyddog o'r tîm Datblygu ac Ystadau, swyddog sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r broses gynllunio neu Aelod etholedig o'r Cyngor (neu ar dir/adeiladau yn eu perchnogaeth). | Pwyllgor Cynllunio |
| Cytuno ar estyniadau amser ar geisiadau cynllunio a cheisiadau cysylltiedig | Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol |
| Ymateb i ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru ar newidiadau i bolisi, rheoliadau a deddfwriaeth sylfaenol. | Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol |

## Gorfodi Cynllunio

| Swyddogaeth | Dirprwyaeth |
|---|---|
| Cyflwyno hysbysiad torri amodau cynllunio (neu ofyniad arall am wybodaeth), hysbysiad gorfodi, hysbysiad torri amodau, hysbysiad a215 neu orfodaeth o dan reoliadau hysbysebu. | Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol |
| Penderfynu na chymerir camau pellach lle nad ystyrir bod toriad neu lle nad yw'n hwylus cymryd camau gorfodi. | Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol |
| Mewn argyfyngau, cyflwyno hysbysiad stopio neu waharddeb. | Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol (mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Cyfreithiol) |
| Cychwyn achos am beidio â dychwelyd neu beidio â chydymffurfio â hysbysiad. | Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol |
| Achosion sydd, ym marn y Rheolwr Gwasanaeth, o fudd ehangach i'r cyhoedd o ystyried amgylchiadau'r achos. | Pwyllgor Cynllunio |
| Awdurdodiadau RIPA | Llofnodwr swyddog awdurdodedig priodol |

*Nodyn 1: pan fo awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol, gall hyn gael ei raeadru i swyddogion eraill yn y Tîm yn unol â statws a phrofiad.*

*Nodyn 2: Mae'r nodyn hwn yn ymdrin â swyddogaethau cynllunio a rheoli adeiladu yn unig. Mae yna wasanaethau eraill sy'n dod o dan gylch gwaith y Pwyllgor Cynllunio nad ydynt wedi'u cynnwys yn y nodyn hwn e.e. materion hawliau tramwy.*

*Diweddarwyd: Hydref 2023*